Crynodeb

# Mannau parcio beiciau preswyl

## Gwella parcio ar gyfer beiciau i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth



# Y prosiect

Nod y prosiect mannau parcio beiciau preswyl oedd cael deall sut mae trefniadau parcio gwael ar gyfer beiciau yn atal pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth rhag beicio a beth all wella hynny.

Datblygwyd y datrysiadau a awgrymir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar adolygiad o dystiolaeth, arolwg yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig a grwpiau ffocws gyda phobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.

Credwn y dylai beicio a'i fanteision i iechyd, yr amgylchedd a chael mynediad at y pethau y mae eu hangen arnoch i fyw'n dda fod yn gyfle sydd ar gael i bawb. Golyga hyn oresgyn rhwystrau, yn cynnwys diffyg mynediad at barcio beiciau yn ddiogel ac yn hygyrch gartref.

Dyddiad cyhoeddi: 18 Medi 2024

© Sustrans, Medi 2024

**Sustrans**
Rydym yn gweithio gyda chymunedau ac ar eu rhan, gan eu helpu i adfywio drwy gerdded, olwyno a seiclo i greu lleoedd iachach a bywydau hapusach i bawb. www.sustrans.org.uk

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban).

**Cyclehoop**
Mae Cyclehoop yn creu atebion parcio beiciau ac isadeiledd arloesol. Mae ein tîm yn malio am symudedd gwyrdd ac mae'n ymroddedig i wneud bob math o leoedd yn fwy cyfeillgar i feiciau. Mae ein nwyddau arobryn wedi'u dylunio gan feicwyr, i annog pobl o bob math wneud y newid a phrofi manteision iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol reidio beic. www.cyclehoop.com

Ffotograffau: Jon Bewley/Sustrans (tudalennau 1 a 11), Brian Sweeney (tudalen 12).

# Crynodeb

> "Pe gwyddwn i fod y man storio delfrydol yno, wyddoch chi, byddai hynny'n fy nghymell i feddwl, reit, dwi am gael fy meic delfrydol. Rwyf am gynilo fy arian a chael yr e-feic tair olwyn. Rwy'n meddwl mae'n debyg y byddai'n golygu y byddwn i'n llawer mwy tebygol o fynd ati i feicio a chadw at wneud yn y tymor hir."
>
> **Benyw, 35-49 oed, ddim mewn cyflogaeth, nid yw'n beicio**

## Yr angen i wella mannau parcio beiciau preswyl

### Mae diffyg dewisiadau trafnidiaeth yn dal llawer o bobl ar incwm isel yn ôl

Mae pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth yn llai tebygol o fod yn berchen car, ac i'r rhai sydd â char, mae costau byw cynyddol yn golygu bod cadw car yn anfforddiadwy. I'r rhai sy'n dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae prisiau drud trenau a thoriadau i wasanaethau bysiau wedi cyfyngu ar eu gallu i deithio.

Yr enw ar ddiffyg opsiynau trafnidiaeth sy'n fforddiadwy, dibynadwy, hygyrch, ar gael ac yn ddiogel, yw tlodi trafnidiaeth.[1] Gall tlodi trafnidiaeth gyfyngu ar ansawdd bywyd pobl. Mae'n rhoi pobl mewn perygl o golli eu swydd neu'n eu hatal rhag cael mynediad at waith, addysg, iechyd a gwasanaethau gofal. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau negyddol i'n hiechyd a'r economi.

1 Iechyd Cyhoeddus yr Alban, 2024. Tlodi Trafnidiaeth: mater o iechyd cyhoeddus. https://publichealthscotland.scot/publications/transport-poverty-a-public-health-issue/transport-poverty-a-public-health-issue

**Potensial beicio i gynyddu dewisiadau trafnidiaeth**

Mae yna wahaniaethau tebyg wrth drafod bod yn berchen beic. Dim ond 40% o aelwydydd incwm isel sydd â mynediad at feic, o'i gymharu â 59% o aelwydydd mewn galwedigaethau proffesiynol.[2]

Gall beic arwain at gyfleoedd. Mae beicio yn ddull trafnidiaeth cost isel ar gyfer llawer o siwrneiau bob dydd.

Nid yw 31% o bobl sy'n byw mewn aelwydydd ar incwm isel yn beicio ar hyn o bryd, ond hoffent ddechrau.[3]

**Mae angen man parcio beic diogel a hygyrch ar lawer o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth os ydyn nhw am feicio**

Gall diffyg mannau parcio beiciau preswyl fod yn rhwystr sylweddol. Os nad oes gan bobl le i barcio beic gartref sy'n hwylus, yn hygyrch ac yn ddiogel, maen nhw'n llai tebygol o fynd ati i feicio.

Gan hynny, aethom ati i gael dealltwriaeth well o ddarpariaeth parcio beiciau preswyl ar gyfer pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth ledled y Deyrnas Unedig a sut gellid ei wella.

## Yr hyn a wnaethom

Fe gynhaliom adolygiad o dystiolaeth, arolwg cynrychioladol a oedd yn cwmpasu'r Deyrnas Unedig a grwpiau ffocws i:

- Ddeall darpariaeth parcio beiciau preswyl ar gyfer pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth ledled y Deyrnas Unedig.
- Deall beth sydd ei eisiau ar bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth gan ddarpariaeth parcio beiciau preswyl i ddiwallu eu hanghenion.

2 Sustrans, 2024. Mynegai Cerdded a Beicio, 2023. Set ddata cyfanredol y Deyrnas Unedig.

3 Sustrans, 2024. Mynegai Cerdded a Beicio, 2023. Set ddata cyfanredol y Deyrnas Unedig.

## Yr hyn a ganfuom

> "Rwy'n meddwl, os yw'r llywodraeth eisiau i ni feicio mwy, yna mae'n rhaid iddyn nhw ei gwneud yn haws ac yn fwy hygyrch i bobl."
>
> **Benyw, 35-49 oed, ddim mewn cyflogaeth, yn beicio**

**Ledled y Deyrnas Unedig, mae pobl ar incwm isel eisiau beicio, ond nid oes ganddynt le i barcio beic gartref**

Canfu ein harolwg mai dim ond 12% o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n berchen beic ac yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Canfuom fod ychydig llai na thraean (32%) o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth heb le cyfleus a diogel i storio eu beic gartref.[4] Mae hyn yn cyfateb i 3.7 miliwn o bobl sydd wedi'u cau allan o feicio, er mai nhw yw'r rhai sydd fwyaf o'i angen.

Mae anghyfartalwch mewn mynediad at le i barcio beiciau hyd yn oed yn fwy i lawer o bobl sydd ar incwm isel neu bobl nad ydynt mewn cyflogaeth. Nid oedd gan 39% o bobl anabl le cyfleus a diogel i barcio eu beic gartref, yn ogystal â 34% o fenywod a 36% o bobl o gefndir lleiafrif ethnig.

Dywedodd bron hanner pobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth (47%) y buasent yn dechrau beicio neu'n beicio mwy pe byddai ganddynt le i barcio eu beic gartref a oedd yn gyfleus, yn ddiogel, yn saff ac yn hygyrch. Mae hyn yn cyfateb i tua 5.5. miliwn o bobl.

Mae hyn yn fater arbennig o bwysig i bobl sy'n byw mewn fflatiau. Er enghraifft, mae pobl sy'n byw mewn fflat yn llawer llai tebygol o fod â lle diogel (27%) neu hygyrch (23%) i storio beic na phobl sy'n byw mewn tŷ ar ei ben ei hun (60% a 58% yn eu trefn).

---

4 Sustrans, 2024. Y Cyfle i Feicio: Yr achos o blaid cynllun talebau i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth (ar ei ffordd).

Mae diogelwch yn elfen bwysig o barcio beiciau, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog. Dywedodd 15% o ymatebwyr fod eu beic wedi cael ei ddwyn, neu eu bod yn adnabod rhywun oedd wedi cael ei feic wedi'i ddwyn, o'u cartref yn y 12 mis diwethaf.

Mae hygyrchedd yn hollbwysig hefyd. Mae dau o bob pump o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth yn nodi fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd. Mae'n rhaid i fannau parcio beiciau preswyl fod wedi'u dylunio i fod yn gynhwysol o'r rhai sydd angen beiciau arbenigol drytach, yn cynnwys e-feiciau, beiciau llaw a beiciau gorweddol.

Mae 1.5 miliwn o bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth wedi cael eu digalonni rhag prynu beic oherwydd cyfyngiadau llety, er enghraifft, dim lle diogel a chyfleus i barcio beic.

Gallai newidiadau bach a syml, er enghraifft rhoi rhywle diogel i bobl gadw eu beiciau, fod yn drawsnewidiol i fywydau pobl, ac i'n system drafnidiaeth.

Mae gwella parcio beiciau i bobl yn rhywbeth hawdd i'w roi ar waith a byddai'n arwain at fanteision sylweddol i iechyd, llesiant a mynediad at addysg a chyflogaeth.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1: Dylai awdurdodau lleol gynyddu darpariaeth parcio beiciau preswyl, gan flaenoriaethu fflatiau ac ardaloedd o amddifadedd.**

- Cam gweithredu 1.1: Dylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ddarparu cyfleusterau parcio beiciau cymunedol i fflatiau ac mewn ardaloedd o amddifadedd.
- Cam gweithredu 1.2: Dylai awdurdodau lleol a chymdeithasau tai gynyddu ymwybyddiaeth o gyfleusterau parcio beiciau preswyl ymysg cymunedau lleol a grwpiau tenantiaid.

**Argymhelliad 2: Dylai llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig roi safonau, buddsoddiad a rheoliadau ar waith i wella darpariaeth parcio beiciau preswyl.**

- Cam gweithredu 2.1: Cryfhau canllawiau i bob awdurdod lleol wella darpariaeth parcio beicio preswyl.
- Cam gweithredu 2.2: Sicrhau bod gan awdurdodau lleol fynediad at gyllid hirdymor ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy y gellir ei ddefnyddio i wella darpariaeth parcio beiciau preswyl.
- Cam gweithredu 2.3: Diwygio rheoliadau cynllunio i sicrhau bod gan bob cartref newydd fynediad at ddarpariaeth ddigonol ar gyfer parcio beiciau.
- Cam gweithredu 2.4: Addasu hawliau datblygu a ganiateir i aelwydydd er mwyn caniatáu gosod storfeydd beiciau o flaen tai a fflatiau (ar flaenlun yr adeilad).

**Argymhelliad 3: Dylai llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â rhwystrau eraill i feicio i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth.**

- Cam gweithredu 3.1: Dylai awdurdodau lleol archwilio a gwella darpariaeth parcio beiciau cyhoeddus.
- Cam gweithredu 3.2: Dylai llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig ddarparu cymorth ariannol i bobl ar incwm isel a phobl nad ydynt mewn cyflogaeth i brynu beic.
- Cam gweithredu 3.3: Mae angen i lywodraethau ar draws y Deyrnas Unedig weithio gyda'i gilydd ag awdurdodau lleol i wella isadeiledd beicio.

> “Fe wir hoffwn i ddechrau beicio eto. Maen nhw newydd fuddsoddi yn yr holl lonydd beicio hyn yn fy ardal i a byddai’n arbed arian i mi pe bawn yn beicio. Ond rwy’n byw mewn fflat llawr cyntaf. Balconi yn y cefn yw fy unig le y tu allan, felly byddai’n rhaid i mi ddod â’r beic i fyny’r grisiau o’r stryd, ei droi ar ongl sgwâr i mewn drwy fy nrws ffrynt oherwydd mae dau ddrws, un bob ochr, ar ben y grisiau, ac yna cerdded drwy fy ystafell fyw a fy nghegin a’i roi y tu allan ar fy malconi cefn a gorfod gwneud hynny bob tro y byddwn yn mynd ag ef i mewn neu allan, ac mae’n feic maint llawn, nid un sy’n plygu, felly mae hynny’n fy anghymell.”
>
> **Benyw, 25-34 oed, mewn cyflogaeth, nid yw’n beicio**



**Astudiaeth Achos: Ben, Swindon.**

Mae gan Ben flinder cronig, sy'n effeithio ar ei allu i wneud siwrneiau hir neu deithio gyda char. Ond o ran teithio o gwmpas ei ardal leol, mae wedi darganfod bod beicio'n helpu.

"Rwy'n defnyddio fy meic ar gyfer siwrneiau i'r archfarchnad ac i'r dref – mae'n gymaint cynt na mynd ar y bws, oherwydd yn anffodus, dydyn nhw ddim yn ddibynadwy iawn yn yr ardal hon.

"Rwy'n gweld fod beicio yn helpu gyda fy mlinder. Os ydych chi'n cael y cydbwysedd yn iawn, mae'n beth cadarnhaol iawn."

Fodd bynnag, mae storio ei feic yn ddiogel wedi bod yn anodd i Ben.

"Tua blwyddyn yn ôl, fe wnes i'r camgymeriad o gloi fy meic yn y parc manwerthu ble'r oeddwn yn arfer gweithio. Cafodd ei ddwyn tra'r oeddwn i'n gweithio, yn llythrennol reit y tu allan i'r siop.

"Felly dyna pam cefais i feic ail law rhatach, sef yr un rwy'n ei reidio nawr."

Mae storio'n arbennig o anodd yn ei adeilad fflatiau, gan nad yw'r sied ar gyfer tenantiaid yn ddiogel nac yn cael ei hedrych ar ei hôl yn dda.

Mae Ben wedi gorfod troi at dalu am le storio mewn uned gyfagos er mwyn cadw ei feic yn ddiogel, ond mae ef eisiau gweld pethau'n newid.

"Rwy'n hoffi'r syniad o gysgodfeydd mwy diogel i gloi beic, naill ai pan fo rywun allan o gylch y fro neu yn eich ardal leol. Does yna ddim lle dw i'n byw.

"Rwy'n golygu mwy na jyst cloi beic yn sownd i rac, ond rhyw fath o storfa wedi'i diogelu sy'n llawer mwy diogel ac yn gorchuddio'ch beic.

"Yn amlwg, dydw i ddim o reidrwydd yn disgwyl i hwnnw fod am ddim – byddai'n wych pe byddai, ond fe fuaswn i'n fodlon talu £10-15 y mis jyst i gael gwybod ei fod yn ddiogel."

